# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

## COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed MEHEFIN 2024.
## NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng Mrs L Roberts (Is - Gadeiryddes ) Cyng Ms N Dafydd, J Evans, G Jones, J E Lewis, D T Roberts, R R Roberts.
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng R G Parry, W R Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng J E Lewis (Rhif 9)

Llongyfarchiadau mawr i Cyng Mrs L Roberts am Gadeiryddio y cyfarfod, dyma dro cyntaf erioed i foneddiges fod yn y Gadair.

CAEL COFNODION 21ain MAI 2024 YN RHAI CYWIR: Cyng R R Roberts, eilio Cyng D T Roberts,

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Gwyndy, Bodychen, Llandrygarn Mae`nt yn adolygiad gan y Cyng Ms N Dafydd i gael arwyddion, efallai bydd mwy o wybodaeth erbyn cyfarfod nesaf. Disgwyl prisiau

Llwybrau.
Y Clerc i gysylltu a`r Cyngor Sir i ddweud fod rhwystr ar y canlynol ar ol i Cyng Mrs L Roberts ei cerdded.
Bryn Mawr Tynlon i Glasfryn, Tynlon.
Cae Bach Tynlon, i (ger) Bryn Tancwy, Tynlon.
Mae cortyn yn cau y giat fochyn, Lon Goncrid, Bodffordd. (Codwyd gan Cyng J E Lewis)
Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng G Jones.

Nid oedd Cyng J E Lewis wedi pleidleisio ar rhif 15 (Mynwent Gymunedol Bodffordd) Unfrydol namyn un.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Ail ethol y Cynghorydd Glyn Haynes (Ward Caergybi) fel Cadeirydd y Cyngor 2024 / 25.

Gyda Cynghorydd Ms Non Dafydd (Ward Canolbarth Mon) yn is-gadeirydd.
Y Cyngor yn derbyn a llogyfarchiadau mawr iddynt.

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Ynys Mon yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Wylfa.
   Mai Wylfa yw`r safle sy`n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth ar gyfer Gorsaf Ynni. Niwclear Gigwat ar Raddfa mawr.
   Y Cyngor yn derbyn. Ond bydd rhaid disgwyl nawr tan ar ol yr Etholiad Mis Gorffennaf. Pwy fydd yn rhedeg y Wlad?

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Cynllun Datblygu Lleol Mon 2024 - 29
   Cytundeb Cyflawni Drafft.
   Hysbysu o`e ffaith bod cyfnod ymgynghori statudol yn cael ei gynnal am gyfnod o 6 wythnos rhwng 23.5.24 i 4.7.24 ar gyfer cytundebcyflawni drafft y CDLl. we`r Cyngor
   www.ynysmon.llyw.cymru
   Y Cynghorwyr wedi cael copiau llawn trwy e-bost, cyn y cyfarfod. Derbyn ond nid oedd sylw.

6. Swyddog Policy. Rhian W Jones.
   Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Cyfarfod 13eg Mehefin wedi`i ohirio. Dyddiad i`w gadarnhau. Derbyn.

7. Peiranydd Grwp Rheoli Datblygu a Rheoli Traffig - Alun Roberts.
   Arwyddion ar gyfer Llynfaes, Glanrafon a Trefor.
   Angen Cais gan y Cyngor i gael caniatad i`w gosod.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Llywodraeth Cymru - Ken Skates AS/MS.
   Ysgrifennydd y Cabinet dros drafnidiaeth a Gogledd Cymru.
   Rhaglen wrando ar 20mya.
   Y Cynghorwyr wedi derbyn y llythyr i gyd ac yn ei dderbyn. Nid oedd sylw.

7. Sign Factory, Stad Ddiwydiannol Mona.
   Amcangyfrif am arwyddion ffordd, ai gosod yn Llynfaes 2. Glanrafon 2. a Trefor 2.
   Cyfanswm o £1,825.00 + TAW am gyflenwi a £300.00 + TAW am ei gosod.
   Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng G Jones i dderbyn a symud ymlaen mor fuan ag sydd bosib.
   Disgwyl am ganiatad gan y Cyngor Sir gyntaf.

8. William Hughes Peirianneg Sifil - Victor Hughes.
   20mya Ffordd Bodffordd i`r A5.
   Parthed ymgynghoriad mae`r Cyngor Sir wedi ei lansio.
   A fydd y Cyngor Cymdeithas cystal a nodi ei farn fod angen cadw y cyfyngiad cyflymder o 20mya rhwng yr Eglwys a Stad Cae Bach Aur (fel ac y mae)
   Llawer damwain ar dro Capel Gad, mae gor-yrru yn dal.
   Angen cynnwys ei farn ynglyn a`r lleoliad yma pan yn ymateb i`r ymgynghoriad.
   Trwy gynnig Cyng G Jones ac eilio Cyng J Evans trafodwyd ei gynnwys ai gofnodi.
   Mae hawl gan unigolyn gysylltu yn syth a`r Cyngor Sir. Rhoi mwy o wasgedd.

9. Parti Meibion Bara Brith - J O Griffith - Cadeirydd.
   Parthed - Maes Parcio Mynwent Gymunedol Bodffordd.
   Diolch am gael defnyddio y maes parcio gan yr aelodau pan yn ymarfer yn Eglwys Sant Llwydian bob Nos lau ers rhai blynyddoedd. Y giatiau yn cael ei cau. Siom oedd cyrraedd un Nos lau a`r giatiau wedi ei cloi. Yn apelio ar y Cyngor ystyried rhoi goriad iddynt agor y clo. Y goriad yn cael ei gadw yn yr Eglwys fel gellid ei ddefnyddio gan yr Eglwys pan fydd gwasanaethau. Un goriad ar gyfer yr Eglwys a`r Cor fyddai ei angen.
   Yr oedd y Cyngor yn hollol anymwybodol fod Bara Brith yn parcio yma.
   Felly yn anffodus nid ydyw`r Cyngor yn barod i Bara Brith na unrhyw Fudiad arall ddefnyddio y Maes Parcio (Yn barcio cyhoeddus) pan yn defnyddio yr Eglwys i ymarfer.
   Cynnig Cyng G Jones eilio Cyng D T Roberts ac unfrydol. (ond am Cyng J E Lewis yn datgan diddordeb ond bydd rhaid iddo cael rhoi ei bwt i mewn)

10. Aelod Eglwys Sant Llwydian, Bodffordd - Ann Hughes. (Mynwent Gymunedol Bodffordd)
    Derbyniwyd neges ffon symudol gan yr uchod i`r Clerc, ei gynnwys fel a ganlyn:-
    Ar ol gair gyda`r aelodau Eglwys. Maen`t yn parchu penderfyniad y Cyngor.
    Felly ni fedrant dderbyn goriad. Teimlo fod rhaid cefnogi Cor Bara Brith rhag geiriau sydd yn cael eu dweud amdanynt.?
    Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.

RHODDION.
11. Dim.
PLWYFOL.

12. Adroddiad Elusen William Bold.
    Nid oedd cyfarfod wedi bod. Dywedodd y Clerc bydd ffigyrau ar gael yn Cyfarfod Mis Gorffennaf.

13. Llwybr Ty Croes dros y Ffordd i Coedlys, Llynfaes i Llwyn Onn, Llynfaes angen sylw rhaid cael amcangyfrif. Gofyn i Cyswllt.

14. Dywedodd Cyng Ms N Dafydd fod cwyn gan drigolion Gwalchmai (Isaf) o lorries trwm yn rhedeg trwy`r pentref. Yn debygol ei bod yn cario o`r Chwarel. A ydyw ddim yn bosib tracio yn ol i`r A55 i osgoi y pentref. (ond mae hyn yn bwyta amser i`r lorries) Mater ydyw i`r Cyngor Sir a Cyngor Cymuned Trewalchmai i ddatruso ei problem.
    Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.

15. Cafwyd adroddiad misol gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Y Cyngor yn ddiolchgar dros ben iddi.

MATERION ARIANNOL.

16. Cyfrif Rhedegol. £24,135.79 (Llwybrau i law £275.00)

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £8,590.00 rhan o`r uchod))